1. Cyflwyniad

Diben y Canllaw hwn:

1. Canllaw i'r gyfraith yw'r cyhoeddiad hwn i'ch cynorthwyo i fod yn llywodraethwr effeithiol. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel cyfeirlyfr ar adegau pan fyddwch chi angen cyngor.

2. Mae cyrff llywodraethu ysgolion yn cael eu creu gan y gyfraith a nodir eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn y gyfraith. Dylai pob llywodraethwr ysgol wybod a deall ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau cyfreithiol a sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â chyfrifoldebau'r pennaeth, yr Awdurdod Lleol (a elwir yn 'ALl' o hyn ymlaen) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (a elwir yn Llywodraeth y Cynulliad o hyn ymlaen), a phartïon eraill fel sefydliadau ac awdurdodau esgobaethol, lle'n briodol.

3. Gall yr ystod o gyfrifoldebau cyfreithiol ymddangos yn frawychus ar yr olwg gyntaf, ond nid oes angen i lywodraethwyr fod yn arbenigwyr i'w cyflawni. Gall llywodraethwyr a chyrff llywodraethu ofyn am gyngor gan sawl ffynhonnell, gan gynnwys:

- clerc y corff llywodraethu;
- swyddogion yr ALl;
- Llywodraethwyr Cymru (0845 6020100 neu www.llywodraethwyrcymru.org; neu
- ar gyfer ysgolion enwadol a/neu ysgolion sefydledig, yr awdurdod esgobaethol a/neu'r corff sefydledig; neu
- gyngor cyfreithiol annibynnol, fel cyfreithiwr.

4. Er bod hwn yn ganllaw cynhwysfawr, mae angen i lywodraethwyr gynyddu eu gwybodaeth drwy hyfforddiant i lywodraethwyr a drefnir gan eich ALl a chyhoeddiadau eraill gan Lywodraeth y Cynulliad, Llywodraethwyr Cymru, Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, neu eich ALl. Mae llawer o ffynonellau gwybodaeth ar y rhyngrwyd hefyd, ac er yn ddefnyddiol, rhaid bod yn ofalus wrth eu defnyddio. Mae llawer o wefannau a deunydd sydd wedi'i gyhoeddi yn berthnasol i Loegr yn unig, ac nid i Gymru. Cofiwch sicrhau eich bod ond yn cyfeirio at y gyfraith sy'n berthnasol i Gymru neu gyhoeddiadau am lywodraethu ysgolion yng Nghymru.

5. Yn olaf, er bod hwn yn ganllaw manwl, nid yw'n cymryd lle'r gyfraith. Mae'n amhosibl darparu esboniad cryno a llawn o'r gyfraith. Os oes problemau neu gwestiynau'n codi, dylai llywodraethwyr gyfeirio at y gyfraith berthnasol a/neu geisio cyngor gan y ffynonellau a enwir uchod. Os oes unrhyw wahaniaeth rhwng canllawiau a deddfwriaeth, yna mae'r ddeddfwriaeth yn cael blaenoriaeth bob tro.

Fformat

6. Mae'r penodau yn y canllaw yn rhai annibynnol a gellir eu darllen mewn unrhyw drefn. Nid oes disgwyl i chi ddarllen y canllaw o glawr i glawr, er bod Llywodraeth y Cynulliad yn gobeithio y byddwch yn manteisio arno ac yn dod yn ôl ato o bryd i'w gilydd.

7. Cyfeirir drwy'r canllaw at y gyfraith sydd mewn grym ar y pryd. Os oes canllawiau pellach ar gael, maent yn cael eu rhestru ar ddiwedd pob pennod, ynghyd â gwybodaeth am sut i gael gafael ar gopïau o ddeddfwriaeth a chanllawiau.

8. Ar ddiwedd pob pennod yn y canllaw mae adran gyfeirio sy'n rhestru lle y pennir hawliau a dyletswyddau llywodraethwyr mewn deddfwriaeth. Mae'r gyfraith, neu ddeddfwriaeth fel y mae hefyd yn cael ei hadnabod, yn cynnwys Deddfau Seneddol, rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ac, yn fwyfwy, Mesurau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru – sy'n gyfystyr â Deddfau Seneddol ond sy'n cael eu gwneud yng Nghymru ar gyfer Cymru. Gellir archebu'r holl ffurfiau hyn o'r gyfraith o siopau llyfrau neu'r Llyfrfa (TSO), y gellir dod o hyd iddi ar wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (OPSI) yn www.opsi.gov.uk neu wefan cyhoeddiadau'r Llyfrfa (TSO) yn www.tso.co.uk. Darperir dolenni i ddogfennau unigol ochr yn ochr â chyfeiriadau atynt drwy'r holl ganllaw.

9. Yn y gorffennol mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi rhifynnau ar wahân o'r canllaw ar gyfer ysgol o bob categori. Fodd bynnag, roedd llawer o'r cynnwys yr un fath felly mae'r rhifyn newydd hwn yn un canllaw ar gyfer pob ysgol. Gan mai ysgolion cymunedol yw'r mwyafrif o ysgolion yng Nghymru (gan gynnwys ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin cymunedol), mae prif destun y canllaw yn cyfeirio at y rhain. Lle mae'r testun yn cyfeirio at gategori neu gategorïau penodol o ysgolion yn unig, nodir hyn ar yr ymyl gyda dynodwr, fel a ganlyn:

VC: ysgolion gwirfoddol a reolir
VA: ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir
F: ysgolion sefydledig, gan gynnwys ysgolion arbennig sefydledig
N: ysgolion meithrin a gynhelir
S: ysgol arbennig gymunedol, a gynhelir gan yr ALl
FS: ysgol arbennig sefydledig.

Lle mae'r dadansoddiad o wybodaeth yn fwy cymhleth, bydd y gwahaniaethau'n cael eu hegluro yn y testun heb ddefnyddio'r dynodwyr. Gweler Pennod 3 am esboniad o'r categorïau o ysgolion.

Terminoleg

10. Drwy'r canllaw hwn, defnyddir y term Awdurdod Lleol (ALl) yn hytrach nag Awdurdod Addysg Lleol (AALl) i ddisgrifio'r cynghorau sy'n gyfrifol am ddarparu addysg i ddisgyblion o oedran ysgol yn eu hardaloedd. Rydym wedi defnyddio'r term ALl gan y bydd y gyfraith yn newid yn fuan i ddefnyddio'r term

hwnnw yn hytrach na'r term 'AALl' a arferwyd ei ddefnyddio. Lle y cyfeirir at dermau a ddiffinir mewn deddfwriaeth, er enghraifft "llywodraethwr AALl', parheir i ddefnyddio'r term Awdurdod Addysg Lleol (AALl).

11. Yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys pobl a elwir yn 'Weinidogion Cymru'. Mewn achosion lle defnyddir y term 'Gweinidogion Cymru' mae'n golygu'r un peth yn gyfreithiol â Llywodraeth y Cynulliad.

12. Mae'r holl gyfeiriadau at 'y pennaeth' yn cynnwys y pennaeth dros dro ar unrhyw adeg pan nad oes gan yr ysgol bennaeth parhaol neu pan fo pennaeth dros dro wedi'i benodi yn absenoldeb y pennaeth.

13. Mae sawl darn o gyfraith addysg. I gadw pethau'n syml, mae'r prif ffynonellau wedi'u talfyrru yn y canllaw fel a ganlyn:

- gelwir Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn 'Ddeddf SFfY 98' neu 'Ddeddf 98';
- cyfeirir at Ddeddfau Addysg eraill fel 'Y Ddeddf' gyda'r flwyddyn berthnasol wedi'i rhagddodi, er enghraifft cyfeirir at 'Ddeddf Addysg 2002' fel 'Deddf 2002'; a
- dylid ystyried cyfeiriadau a wneir at y Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion fel cyfeiriad at 'Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005'.

Eglurir deddfwriaeth a rheoliadau eraill y cyfeirir atynt ym mhob pennod.

14. Ar ddiwedd y canllaw mae geirfa gryno a rhestr o'r holl ddatganiadau polisi ysgrifenedig y dylai'r cyrff llywodraethu eu cael.

Ymhle mae'r Canllaw ar gael

15. Mae copïau o'r canllaw hwn ar gael wedi'u hargraffu, yn electronig drwy CD neu ar-lein ar wefan Llywodraeth y Cynulliad yn www.newydd.cymru.gov.uk a gwefan Llywodraethwyr Cymru yn www.llywodraethwyrcymru.org.uk. Efallai y bydd gan wefan eich ALl hefyd ddolenni uniongyrchol i'r Canllaw o'u tudalennau Cymorth i Lywodraethwyr.

16. Bydd copïau o'r cylchlythyrau y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn wedi'u hanfon i'ch ysgol. Gellir cael gafael ar gopïau ohonynt gan Lywodraeth y Cynulliad, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu gellir eu gweld ar y dudalen Cyhoeddiadau ar wefan Llywodraeth y Cynulliad yn www.newydd.cymru.gov.uk.

17. Mewn fersiynau electronig o'r canllaw bydd cyfeiriad yn cael ei danlinellu ac efallai y bydd mewn ffont lliw gwahanol. Mae hyn yn dynodi bod hyperddolen wedi'i gysylltu â'r cyfeiriad, a dylech allu agor y ddogfen lawn neu safle drwy glicio ar y ddolen.

Cyrff Llywodraethu Dros Dro

18. Yn achos gwybodaeth sy'n ymwneud â chorff llywodraethu dros dro a/neu swyddogaeth a chyfrifoldebau llywodraethwyr dros dro, h.y. corff llywodraethu a sefydlir cyn agor ysgol newydd a'i aelodau, dylid cyfeirio at y Bennod sydd â'r pennawd "Ysgolion Newydd a Chyrff Llywodraethu Dros Dro" am wybodaeth.

Diweddariadau i'r Canllaw hwn

19. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu diweddaru'r canllaw hwn yn rheolaidd, er mwyn sicrhau ei fod yn ddefnyddiol a dibynadwy. Bydd penodau'n cael eu newid wrth i'r gyfraith newid a'u gosod ar wefannau Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraethwyr Cymru.

20. Byddwch yn sylwi y cyfeirir mewn sawl pennod at y ffaith bod deddfwriaeth yn cael ei hadolygu, gyda disgwyl i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym tua adeg cyhoeddi'r canllaw. Felly, argymhellir lle'n bosibl y dylid cyfeirio at y copi ar-lein o'r canllaw i sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Fel arall, efallai y byddwch am edrych ar wefan OPSI i weld y ddeddfwriaeth ddiweddaraf sydd mewn grym.

Cyngor Pellach

21. Am fanylion pellach cyfeiriwch at y Bennod sydd â'r pennawd Cymorth a Hyfforddiant i Lywodraethwyr.

Copïau Pellach a Hawlfraint

22. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu argraffu copïau pellach o'r canllaw. Yn hytrach, bydd y fersiwn diweddaraf o'r canllaw ar gael ar y rhyngrwyd ar wefannau Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraethwyr Cymru.

23. Mae hawlfraint y canllaw hwn yn eiddo i Lywodraeth y Cynulliad. Gallwch wneud copïau ohono a'u dosbarthu ar yr amod nad yw er eich budd chi na pherson arall ac na fyddwch yn codi tâl am hynny.